# Y Pwyllgor Menter a Busnes

**SF-06**
**Ymchwiliad i gynigion deddfwriaethol drafft Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020**

**Tystiolaeth gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)**

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Helping Wales' third sector access European funds
Wrthi'n helpu'r trydydd sector yng Nghymru i gael mynediad

3-SET

# Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynigion deddfwriaethol drafft Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020

## Ymateb Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
## Tachwedd 2011

**Cefndir**
Mae'r trydydd sector yn rhanddeiliad allweddol o ran llunio, monitro a chyflwyno rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru:

- Cynrychiolir WCVA a mudiadau eraill y trydydd sector ar Bwyllgor Monitro Cronfeydd Strwythurol Cymru Gyfan a gweithgorau cysylltiedig eraill, yn ogystal ag ar Fforwm Partneriaeth Rhaglenni'r UE ar ôl 2013 a ffrydiau gwaith arbenigol;

- Mae dros £96.4 miliwn o gyllid yr UE wedi'i ymrwymo i 35 o brosiectau a arweinir gan y trydydd sector dan raglenni'r Cronfeydd Strwythurol 2007-13. Drwy amser gwirfoddolwyr a mathau eraill o gyllid cyfatebol, bydd hyn yn cynhyrchu cyfanswm o £176.1m o fuddsoddiad. Bydd hyn yn cynorthwyo 76,600 o unigolion, gan gynnwys 18,800 i ennill cymwysterau, 7,100 i gael mynediad i waith ac yn creu 700 o swyddi;

- Mae'r trydydd sector hefyd yn ymwneud â chyflwyno gweithgareddau prosiectau'r UE a arweinir gan y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan iddo ennill dros £77.9m o gontractau dan drefniadau caffael rhaglenni 2007-13.

Mae'r sector yn gysylltiedig â chyflwyno ystod eang o brosiectau'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), gan gynnwys darparu

dulliau gweithredu arbenigol, arloesol i gynorthwyo'r rhai mwyaf difreintiedig i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETs) a chodi eu dyheadau, cefnogi hyrwyddo merched ym maes cyflogaeth, symud ymlaen â'r agenda cynhwysiant digidol, codi rhwydweithiau llwybrau cerdded a beicio, adfer adeiladau cymunedol, a datblygu'r economi cymdeithasol yng Nghymru.

Yn hynny o beth, mae WCVA, sef y corff ymbarél dros y trydydd sector yng Nghymru, yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i'r cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020.

Mae'r Fforwm Ewropeaidd y trydydd sector (3-SEF) , a hwylusir gan dîm Ewropeaidd trydydd sector WCVA (3-SET), yn rhwydwaith o dros 660 o noddwyr prosiectau trydydd sector yr UE a mudiadau cyflawni contractau. Mae'r ymateb hwn yn cyflwyno materion a chyfleoedd allweddol ar gyfer y trydydd sector o ran symud ymlaen i unrhyw raglenni dilynol y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru ar ôl 2013, ac mae'r egwyddorion a gynhwysir yn yr ymateb hwn wedi'u cadarnhau gan y rhwydwaith.

## Ymatebion i gwestiynau a ofynnwyd gan Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes

## 1. Yr hyn y gallai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ei olygu i Gymru

### 1.1 Ffocws parhaus ar y rhanbarthau tlotaf

Mae WCVA yn croesawu ffocws y Comisiwn ar gefnogi rhanbarthau llai datblygedig yr UE (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) yn ogystal â chynigion ar gyfer trefniadau trosiannol teg ar gyfer rhanbarthau â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) o 75-90% cyfartaledd yr UE (Dwyrain Cymru).

### 1.2 Cysoni ffrydiau cyllido'r UE a chyfleoedd ar gyfer prosiectau sy'n cael cyllid o sawl cronfa

Mae cysoni'r rheolau ar gyfer ERDF, ERSF, y Gronfa Cydlyniant, Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa Forol a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), yn rhoi cyfle sylweddol i Gymru fabwysiadu dull gweithredu integredig ar y lefel uchaf o ran cynllunio'r rhaglenni newydd i sicrhau bod eu blaenoriaethau'n ategu a chadarnhau'i gilydd, ac fel y gellir cael buddsoddiad cytbwys ar draws ardaloedd trefol a gwledig.

Er mwyn gwireddu hyn wrth weithredu rhaglenni, ***rhaid i Lywodraeth Cymru ddwyn ynghyd yr adrannau dan sylw mewn strwythur integredig i lunio'r rhaglenni, a bod â ffocws clir ar symleiddio'r broses o wneud ceisiadau*** i sicrhau bod modd i noddwyr prosiectau ddatblygu a gweithredu prosiectau aml-gronfa, sy'n cwrdd ag anghenion datblygu economaidd yn y ffordd fwyaf cynhwysfawr a chyflawn bosibl.

Er enghraifft ERDF adfywio/grymuso cymunedau/datblygu lleol yn targedu blaenoriaeth ar yr ardaloedd â'r angen mwyaf, gyda buddsoddiad cyfalaf EAFRD mewn cyfleusterau, yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau cynhwysiant cymdeithasol a chyflogaeth ESF fyddai'r ffordd orau o ddatblygu cyfalaf cymdeithasol a grymuso cymunedau gyda sgiliau newydd a rhagolygon am gyflogaeth ac fel modd o hyrwyddo adfywio cymunedol. Gallai hyn olygu mwy o effaith ar lefel prosiect a rhaglen.

Mae'r trydydd sector yn croesawu cynigion deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd i 5% o gyllid gael ei neilltuo ar gyfer prosiectau LEADER, ond yn credu y dylai hyn fod yn

*isafswm*, gan roi ystyriaeth i neilltuo cyfran uwch o'r gyllideb ar gyfer gweithgareddau LEADER er mwyn hwyluso ymgysylltiad y gymuned ym maes datblygu gwledig. Heb y lefel uwch hwn o fuddsoddiad, caiff cyfleoedd ar gyfer prosiectau aml-gronfa i greu gwir effaith eu cyfyngu gan gyfyngiadau cyllidebol yn y Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP).

### 1.3 Caffael v. grantiau

Mae WCVA yn croesawu cynigion y Comisiwn sy'n rhoi sgôp ar gyfer mwy o ddefnydd ar grantiau cyffredinol (global), cyfandaliadau o hyd at 50,000 Ewro (a ganiateir mewn theori, ond nas defnyddir yn ymarferol, dan Reoliadau Cenedlaethol Cymru ar Gymhwyso) a chostau wedi'u symleiddio (megis y fethodoleg dosrannu sefydlog) yn ogystal â chyfle i neilltuo ESF ar gyfer arloesedd cymdeithasol. Gallai'r mecanweithiau hyn leihau'r baich gweinyddol yn sylweddol ar gyfer noddwyr a chyflwynwyr prosiectau, a sicrhau bod cyllid ar gael ynghynt i fudiadau bychain yn y trydydd sector sy'n gweithio ar lawr gwlad.

***Credwn y dylai Llywodraeth Cymru annog a galluogi noddwyr prosiectau i ddefnyddio'r dull gweithredu mwyaf priodol, un ai caffael neu grantiau, yn dibynnu ar raddfa, lefel a math y gweithgarwch.*** Er enghraifft, mae caffael ar raddfa fawr yn briodol ar gyfer cynlluniau ffyrdd a chludiant, ond mae grantiau'n fwy priodol ar gyfer ymyriadau ESF lleol ar raddfa fechan a luniwyd i ddarparu atebion wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer cyfranogwyr ag anghenion cymhleth.

<u>Astudiaeth achos</u>: **Cynllun Porth Ymgysylltu** WCVA

Yn dilyn diwygiad i'r rhaglen ESF gyfredol ym mis Hydref 2010, caniatawyd i brosiectau ddyfarnu grantiau'n gystadleuol, yn hytrch na chontractau ar gyfer gweithgaredd. Cymerodd WCVA y cyfle hwn a gyfer ein cynllun Porth Ymgysylltu, gan newid ym Mawrth 2011 o gaffael i ddull gweithredu'n seiliedig ar grantiau cystadleuol.

Bu i ni gadw'r un systemau a phrosesau, telerau ac amodau, a dim ond newid yr iaith a ddefnyddiwyd gennym a chaniatawyd i ni ddefnyddio dull gweithredu mwy cefnogol o ran ateb ymholiadau, a oedd yn golygu y gallai'r prosesau asesu a thrafod ddechrau'n gynharach. O'n profiad ni ein hunain gwelwyd cynnydd enfawr yn ymatebolrwydd mudiadau'r trydydd sector o ran cyfleoedd bidio.

- Cynhaliwyd 44 o rowndiau tendro dan y dull <u>caffael</u>, a olygodd ddyfarnu 354 o gontractau (cyfartaledd o 8 o gontractau'n cael eu dyfarnu ym mhob rownd);
- Ar y llaw arall, dim ond 6 rownd a gynhaliwyd dan y dull <u>grantiau cystadleuol</u>, gyda 138 o ddyfarniadau (cyfartaledd o 23 o grantiau wedi'u dyfarnu ym mhob rownd).

Yn nodweddiadol, cymerodd contractau bum gwaith mwy o amser i gyrraedd y pwynt lle roeddid yn cymeradwyo dyfarnu'r contract, oherwydd bod elusennau'n cymryd agwedd mwy gofalus tuag at gymryd rhan. Ar y dechrau, achosodd hyn oedi sylweddol o ran dyrannu'r arian i'r sector a gwario ar weithgarwch ar lawr gwlad. Pe byddem wedi defnyddio'r broses grantiau cystadleuol o'r dechrau, byddai cyllid wedi'i ryddhau'n gyflymach, gan alluogi gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer cyllid cyfatebol, a byddai'r prosesau wedi bod yn fwy effeithlon.

### 1.4 Neilltuo cyllid ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a mynd i'r afael â thlodi

Mae WCVA yn croesawu'n benodol y flaenoriaeth uchel a'r dyraniad cyllid (isafswm o 20% ESF, yn ogystal â blaenoriaeth buddsoddi ddewisol) ar gyfer 'hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a mynd i'r afael â thlodi'. I gyd-fynd â hyn rhaid cael fframwaith canlyniadau

sy'n cydnabod nid yn unig swyddi, ond yn bwysicach y cynnydd tuag at gyflogaeth gan ganolbwyntio ar gyfalaf cymdeithasol, canlyniadau cadarnhaol, y pellter a deithir a chanlyniadau gwirfoddoli, yn hytrach na chanlyniadau caled swyddi.

Rhaid rhoi cymhellion i noddwyr prosiectau a mudiadau cyflwyno contractau sy'n gwobrwyo canlyniadau sy'n briodol ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig, er mwyn osgoi 'dewis a dethol' neu 'hufennu a pharcio''r rhai anoddaf i'w cynorthwyo er mwyn canolbwyntio ymyrraeth ar y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur.

*Mae WCVA yn rhagweld y bydd y trydydd sector yn chwarae rôl allweddol o ran cyflwyno blaenoriaeth cynhwysiant cymdeithasol a gwrthdlodi yn y dyfodol, ac i hwyluso hyn, mae'n gofyn i'r Pwyllgor argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried:*

- Cyflwyno rhaglen o grantiau cystadleuol neu gyffredinol i ariannu arloesedd cymdeithasol a gynhwyswyd yn y Rhaglen Weithredol gyda chyfradd uwch o ymyrraeth;
- Lleihau'r baich gweinyddol ar brosiectau drwy ddefnyddio'r posibilrwydd o wneud cyfandaliadau hyd at 50,000 Ewro; a
- Chreu cyfochredd agos rhwng blaenoriaethau ESF, ERDF ac EAFRD i hwyluso prosiectau aml-gronfa sy'n creu cyfalaf cymdeithasol lleol.

### 1.5 Offerynnau ariannol

Mae WCVA yn cefnogi bwriad y Comisiwn Ewropeaidd i gynyddu'r defnydd o fenthyciadau yn ogystal â grantiau fel dull o leihau dibyniaeth ar grantiau a chreu etifeddiaeth ar gyfer y rhaglenni. Targedir yr offerynnau cyfredol yn bennaf ar y sectorau preifat a chyhoeddus (JESSICA a JEREMIE) ac nid ydynt yn briodol ar gyfer cwrdd ag anghenion cynyddol y trydydd sector. Eithriad i hyn yw Cronfa Fuddsoddi Gymunedol (CIF) WCVA a ariennir drwy ERDF, a luniwyd yn benodol i gwrdd ag anghenion y trydydd sector, drwy gynnig cymysgedd o grantiau a benthyciadau gyda chynlluniau ad-dalu hyblyg. Dylid ehangu'r defnydd o offerynnau ariannol arloesol o'r fath sy'n cwrdd ag anghenion penodol y sector yn y rhaglenni ar ôl 2013. Fodd bynnag, erys cwestiynau am logisteg ac ymarferoldeb cynyddu nifer addas o fenthyciadau i'r sector, a rhaid cydnabod nad yw benthyciadau'n briodol i bob un o fudiadau'r trydydd sector.

*Mae WCVA yn gofyn i'r Pwyllgor argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau nid yn unig fynediad at offerynnau ariannol ond hefyd bod cyfres lawn o gymorth o ran buddsoddi, grantiau, cychwyn, busnes a chymorth deallusol ar gael i fudiadau blaengar yn y trydydd sector a mentrau cymdeithasol.* Byddai'r effaith yn ddeublyg: cynyddu swyddi a ffyniant ond hefyd galluogi mudiadau'r trydydd sector i ddod yn fwy hunangynhaliol a llai dibynnol ar grantiau a rhoddion.

### 1.6 Y pwyslais trefol arfaethedig

Mae gan WCVA bryderon ynghylch y pwyslais arfaethedig ar ardaloedd trefol a beth y gallai hyn ei olygu mewn cyd-destun Cymreig, o bosibl o ran dull gweithredu strategol dinas-rhanbarth. Argymhellir y dylid sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl yn nhermau'r diffiniad o 'ardaloedd trefol' i sicrhau bod modd i ni yng Nghymru gyfeirio Cronfeydd Strwythurol at yr ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf o ran eu gallu i yrru twf economaidd yn y rhanbarth. *Os mabwysiedir dull gweithredu dinas-rhanbarth, mae WCVA yn ceisio sicrwydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru y bydd y trydydd sector yn cael ei gynnwys wrth gynllunio a chyflwyno i sicrhau bod y gymuned yn ymwneud â'r prosesau ac yn cael budd o'r blaenoriaethau cyflwyno.*

### 1.7 Dulliau datblygu lleol dan arweiniad y gymuned

Mae'r trydydd sector yn croesawu cynnwys datblygiad cymunedol dan arweiniad y gymuned fel thema trosfwaol. Mae teimlad cyffredinol yn bodoli bod rhaglenni 2007-13 wedi symud yn rhy bell oddi wrth y lefel leol a bod gan Amcan Un broffil lleol, perchnogaeth ac effaith canfyddedig gwell oherwydd lefel uchel yr ymwneud lleol yn y prosesau o ymgeisio am gyllid yn ogystal ag wrth weithredu prosiectau. Bu hyn yn nodwedd allweddol a oedd ar goll o'r rhaglenni cyfredol ac os hwylusir cyfranogaeth cymunedau lleol yn effeithiol yn y rhaglenni newydd, er enghraifft drwy ganolfannau cymunedol, gallai hyn helpu i hyrwyddo ymrwymiad a pherchnogaeth i wella gweithrediad prosiectau ar lefel leol/ranbarthol.

### 1.8 Cydweithrediad trawswladol

Tanddefnyddiwyd yn sylweddol y cyfle i ymgymryd â gweithgarwch trawswladol o fewn cyd-destun prosiectau ESF ac ERDF, ac mae adborth gan noddwyr prosiectau trydydd sector yn nodi y gallai'r awdurdod rheoli wneud mwy i symleiddio a hwyluso mynediad. *Argymhellir gwella statws cydweithrediad trawswladol drwy greu un ai Flaenoriaethau ERDF ac ESF penodol ar gyfer cydweithrediad trawswladol neu, fel arall, llinyn o fewn pob Blaenoriaeth Rhaglen.* Dylai Cymorth Technegol hefyd fod ar gael i randdeiliaid allanol i gynorthwyo noddwyr prosiectau i ddatblygu a gweithredu eu gweithgareddau trawswladol.

### 1.9 Datblygu potensial a Chymorth Technegol ar gyfer y trydydd sector

Ystyrir bod cyfeirio'n benodol at yr angen i hyrwyddo ymrwymiad y trydydd sector drwy sicrhau bod swm priodol o adnoddau ESF yn cael ei ddyrannu i ddatblygu potensial ar gyfer y sector, yn ogystal â'r posibilrwydd i'r sector sicrhau cyllid Cymorth Technegol ERDF, yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo a chefnogi rôl y sector fel rhanddeiliad allweddol yn y rhaglenni.

Mae tîm Ewropeaidd trydydd sector (3-SET) WCVA wedi sicrhau cyllid Cymorth Technegol drwy'r rhaglenni ESF ac ERDF yn y rownd gyfredol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i fudiadau trydydd sector sy'n dymuno elwa ar Gronfeydd Strwythurol, yn ogystal ag i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus â'r trydydd sector. Mae'r math hwn o gefnogaeth yn hanfodol i fod yn sylfaen i ymrwymiad y trydydd sector o ran trefniadau monitro rhaglenni yn ogystal ag fel noddwr prosiectau a chyflwynydd contractau.

### 1.10 Etifeddiaeth rhaglenni 2014-2020

Dylid dechrau cynllunio yn awr ar gyfer y tirlun ar ôl 2020 pan fydd lefel yr ymyriadau Ewropeaidd yn debygol o fod yn sylweddol is. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid gwneud mwy i annog ac ysgogi cynaliadwyedd ariannol o fewn meysydd allweddol. Un rhwystr i brosiectau ddatblygu ffrydiau incwm, yn enwedig dan ESF, yw bod mudiadau'n cael eu cosbi am gynhyrchu incwm drwy gael gostyngiad mewn grant. I hyrwyddo ac annog cynaliadwyedd ariannol o ddifrif *gofynnir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru annog Llywodraeth Cymru i sgopio cyfleoedd i wella hyblygrwydd o ran rheolau cyllido'r UE er mwyn ysgogi, yn hytrach na rhwystro, modelau ariannol cynaliadwy megis cyllid o fenthyciadau a chymynroddion.*

## 2. Beth ddylai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fod yn ei thrafodaethau i sicrhau canlyniad buddiol i Gymru

### 2.1 Pwyntiau trafod a argymhellir

Argymhellir bod Llywodraeth y DU yn cynnwys y pwyntiau canlynol fel blaenoriaethau ar gyfer trafod y rhaglenni newydd:

- Sicrhau ymrwymiad llawn y trydydd sector fel rhanddeiliad allweddol wrth gynllunio, monitro a chyflwyno'r rhaglenni yn y dyfodol, gan gynnwys mewn trefniadau Contractau Partneriaeth ar lefel y DU.

- Edrych ar ffyrdd o safoni systemau a phrosesau ar gyfer Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Rhaglenni Datblygu Gwledig (RDP) err mwyn hyrwyddo symleiddio a galluogi noddwyr prosiectau i lunio a rhoi prosiectau aml-gronfa (ERDF/ESF/EAFRD) ar waith.
- Hyrwyddo mynediad wedi'i symleiddio at gronfeydd drwy grantiau cystadleuol a chyffredinol, yn ogystal â defnyddio'r cyfleuster ar gyfer cyfandaliadau o hyd at 50,000 Ewro.

- Defnyddio cyfleoedd yn y cynigion deddfwriaethol drafft i greu blaenoriaethau cyllido penodol ar gyfer:

    - Datblygu potensial i hyrwyddo ymrwymiad y trydydd sector
    - Cymorth Technegol ar gyfer y trydydd sector
    - Arloesedd cymdeithasol - drwy ESF wedi'i neilltuo, o bosibl ar ffurf rhaglen o grantiau cyffredinol
    - Cydweithrediad trawswladol

- Cadw'r hyblygrwydd mwyaf posibl o ran y diffiniad o 'ardaloedd trefol' fel rhan o ddull gweithredu dinas-rhanbarth ac unrhyw gynigion i neilltuo cyllid ar gyfer ardaloedd trefol.

- Hyrwyddo'r defnydd o fenthyciadau fel modd o leihau dibyniaeth ar grantiau, sicrhau bod benthyciadau'n hawdd eu cael i fudiadau'r trydydd sector fel rhan o gyfres o grantiau a chefnogaeth ddeallusol.

- Edrych ar ffyrdd o annog ac ysgogi cynaliadwyedd ariannol, i osgoi i fudiadau gael eu cosbi am gynhyrchu incwm.

- Edrych ar ffyrdd y gellir defnyddio rheolau Cymorth Gwladwriaethol Ewrop i greu dull mwy cymesur o ran craffu ar Gymorth Gwladwriaethol yng nghyswllt natur a chwmpas gwasanaethau. Gan fwyaf, nid yw gweithgarwch y trydydd sector yn effeithio ar fasnach rhwng Aelod Wladwriaethau, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n galw am ddull gweithredu â 'chyffyrddiad ysgafnach'.

- Cadw taliadau ymlaen llaw i ddarparu llif arian i noddwyr prosiectau'r trydydd sector ac ehangu hyn i fudiadau trydydd sector sy'n cyflwyno contractau ar ran cyrff cyhoeddus.

- Cynnal amser gwirfoddoli fel ffynhonnell gymwys o gyllid cyfatebol 'ymarferol'.

2.2 Cadw modelau cyflwyno sy'n gweithio
*Mae WCVA yn annog y pwyllgor i gynghori WEFO i wneud adolygiad brys o brosiectau a gyllidir drwy raglenni 2007-13, i ganfod prosiectau a modelau cyflwyno y gellid eu haddasu i helpu i gyflwyno ar rai o'r blaenoriaethau ar gyfer rhaglenni i'r dyfodol.* Yr oedd llawer o brosiectau'n araf yn cychwyn dan y rhaglenni cyfredol oherwydd cymhlethdod creu gweithdrefnau a phrosesau newydd ar gyfer caffael yn ogystal â gwella sgiliau gweithwyr prosiect i reoli a chyflwyno prosiectau mewn awyrgylch o reolaeth dynn o ran awdit a rheoli.

Mae'r amcanion thematig a'r blaenoriaethau buddsoddi a gynhwysir yng nghynigion deddfwriaethol drafft y Comisiwn fwy neu lai'r un fath â blaenoriaethau'r rhaglen bresennol. Er mwyn hwyluso trosglwyddiad didrafferth i'r rhaglenni newydd, mae'n hanfodol bod WEFO yn ceisio cadw a gweithio gyda noddwyr prosiectau sydd wedi adeiladu seilwaith, prosesau ac arbenigedd soffistigedig i brosiectau yn ystod y rhaglenni cyfredol i sicrhau nad yw'r cyfalaf deallusol hwn yn cael ei golli yn y tymor byr, ddim ond i gael ei ail-adeiladu eto gydag oedi mawr (diangen) ar ddechrau'r rhaglenni nesaf.

## 3. Sut y gall Cymru sicrhau bod ei barn yn goleuo'r broses negodi.

### 3.1 Contract Partneriaeth y DU gyda'r Comisiwn Ewropeaidd

Mae'r cynigion deddfwriaethol draft yn datgan *"Ar gyfer y Contract Partneriaeth a phob rhaglen fel ei gilydd, dylai Aelod Wladwriaeth drefnu partneriaeth gyda chynrychiolwyr awdurdodau cyhoeddus cymwys rhanbarthol, lleol, trefol ac eraill, partneriaid economaidd a chymdeithasol, a chyrff yn cynrychioli cymdeithas sifil, gan gynnwys partneriaid amgylcheddol, mudiadau anllywodraethol a chyrff sy'n gyfrifol am hyrwyddo cydraddoldeb a dim gwahaniaethu".*

Hoffai WCVA ddatgan diddordeb mewn bod yn rhan o unrhyw drefniadau Partneriaeth ar lefel y DU, yn ogystal ag unrhyw drefniadau datganoledig. Byddai hyn yn helpu i hyrwyddo perchnogaeth y trydydd sector ar y rhaglenni, a galluogi WCVA i gyfrannu ei brofiad sylweddol o ran llunio, monitro a chyflwyno Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru i'r trefniadau Partneriaeth, a gweithredu fel swyddogaeth fonitro o ran ymrwymiad y trydydd sector yng nghyswllt cyflwyno rhaglenni.

Tanlinellir diddordeb WCVA mewn bod yn rhan o Bartneriaeth Contract y DU gan brofiad sylweddol gyda Chronfeydd Strwythurol ac mae'n cynnwys:

- Aelodaeth o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan a Phwyllgor Monitro Rhaglenni'r Cynllun Datblygu Gwledig (2000-2006 a 2007-2013);
- Ymwneud yn weithredol â gweithgorau ar gyfer rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol (2000-2006, 2007-2012);
- Darparu cynrychiolaeth y trydydd sector ar Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd ar ôl 2013 a ffrydiau gwaith arbenigol;
- Rheoli tîm Ewropeaidd y trydydd sector (3-SET) a ariennir yn rhannol drwy Gymorth Technegol fel rhan o rwydwaith y Tîm Ewropeaidd Arbenigol (SET);
- Noddi chwe phrosiect strategol yn rhaglenni 2000-2006, yn ogystal â rheoli portffolio o bump o brosiectau ESF ac ERDF gwerth £66m yn y rhaglenni cyfredol; a
- Chwarae rhan allweddol wrth gyflwyno prosiectau strategol sy'n anelu at wneud Cronfeydd Strwythurol yn fwy hygyrch i fudiadau'r trydydd sector.

### 3.2 Mewnbwn Cymreig i sefyllfa negodi Llywodraeth y DU

Dylid rhoi cyfle i randdeiliaid Cymreig ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y DU a fydd yn arwain trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, er mwyn sicrhau bod ein safbwynt Cymreig unigryw yn cael ei gynnwys yn sefyllfa gyffredinol y DU. Caiff sefyllfaoedd negodi Cymru a'r DU eu cryfhau drwy gynnwys arbenigwyr o ystod eang o sectorau.

JS
10.11.11

**WCVA Helpdesk / Lein Gymorth** 0800 2888 329 | help@wcva.org.uk | www.wcva.org.uk
facebook.com/walescva | twitter.com/walescva

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund